

Hysbysiadau Archwilio sy'n cael eu hychwanegugan Reoliadau

Enghraifft o hysbysiad i'w gyhoeddi ar wefan y Cyngor erbyn 30 Mehefin os oes angen

Ardystio a chymeradwyo cyfrifon blynyddol ar gyfer 2019-20

Mae rheoliad 15 (1) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i swyddog ariannol cyfrifol ~~[enw'r Cyngor]~~ ^{Bodffordd} lofnodi a dyddio'r datganiad o gyfrifon, ac ardystio ei fod [yn cyflwyno derbyniadau a thaliadau'r Cyngor yn gywir am y flwyddyn] neu [Mae'n cyflwyno'n deg sefyllfa ariannol ~~[enw'r Cyngor]~~ ^{Bodffordd} ar ddiwedd y flwyddyn ac incwm a gwariant y Cyngor am y flwyddyn]. Roedd y Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol cwblhau hyn erbyn 30 Mehefin 2020.

[Nid yw'r swyddog ariannol cyfrifol wedi llofnodi a thystio'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020. [Oherwydd yr achosion o COVID-19, nid yw'r swyddog ariannol cyfrifol wedi gallu paratoi'r cyfrifon]. Bydd y datganiad cyfrifon yn cael ei baratoi a bydd y swyddog ariannol cyfrifol yn llofnodi ac yn ardystio'r datganiad o gyfrifon pan fydd pwysau uniongyrchol yr achos COVID-19 wedi tawelu.]

Neu

[Roedd y swyddog ariannol cyfrifol wedi llofnodi a thystio'r cyfrifon ar [dyddiad].

Mae rheoliad 15 (2) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol, yn dilyn yr ardystiad gan y swyddog ariannol cyfrifol y cyfeirir ato uchod, fod yn rhaid i'r Cyngor gymeradwyo 'r cyfrifon. Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol cwblhau hyn erbyn 30 Mehefin 2020.

[Nid yw'r Cyngor wedi gallu cwrdd i gymeradwyo'r cyfrifon gan nad yw'r swyddog ariannol cyfrifol eto [wedi paratoi] **neu** [wedi ardystio] y cyfrifon]

Neu

[Oherwydd achos y COVID-19, nid yw ~~[enw'r corff]~~ ^{Bodffordd} wedi cwrdd i gymeradwyo'r cyfrifon.]

Enghraifft o hysbysiad i'w gyhoeddi ar wefan y Cyngor erbyn 30 Medi gan bob cyngor

Cyhoeddi cyfrifon archwiliedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

Mae rheoliad 15 (5) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol, erbyn 30 Medi 2020, i ~~[enw'r Cyngor]~~ ^{Bodffordd} gyhoeddi ei ddatganiadau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 ynghyd ag unrhyw dystysgrif, barn neu adroddiad a gyhoeddwyd, a roddwyd neu a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol.

Mae'r datganiadau cyfrifyddu ar ffurf ffurflen flynyddol wedi'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor. Fodd bynnag, cyhoeddir y cyfrifon cyn i'r archwiliad ddod i ben. Oherwydd effaith COVID-19, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyhoeddi barn archwilio eto.

[dylid diwygio'r testun yn y porffor neu ei ddileu fel y bo'n briodol]

Atodiad 2 – Hysbysiad archwilio

Hysbysiad pennu'r dyddiad ar gyfer arfer hawliau etholwyr

CYNGOR BODFORDD.

Blwyddyn ariannol yn dod i ben ar 31 March 2021

1. Dyddiad cyhoeddi AWST 2021
2. Bob blwyddyn, archwilir y cyfrifon blynyddol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Cyn y dyddiad hwn, mae unrhyw berson â diddordeb yn cael cyfle i archwilio a gwneud copïau o'r cyfrifon a'r holl lyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynebau ac yn y blaen sy'n ymwneud â hwy am 20 diwrnod gwaith ar rybudd rhesymol. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021, bydd y dogfennau hyn ar gael ar rybudd rhesymol ar gais i:

DEREK OWEN
PENANT, 18 THE LINKS
BOLL BAY YNYSYMON LL68 9EG
07766552583

Rhwng yr oriau o 10am a 12pm o ddydd Llun i ddydd Gwener

Yn dechrau ar 20 Awst 2021

Ac yn dod i ben ar 17 Medi 2021

3. O 20 Medi 2021, hyd nes y bydd yr archwiliad wedi ei gwblhau, mae gan Etholwyr Llywodraeth Leol a'u cynrychiolwyr hefyd:
 - yr hawl i holi'r Archwilydd Cyffredinol ynglŷn â'r cyfrifon.
 - yr hawl i ddod gerbron yr Archwilydd Cyffredinol a mynegi gwrthwynebiad i'r cyfrifon neu unrhyw eitem ynddynt. Rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig o wrthwynebiad i'r Archwilydd Cyffredinol yn gyntaf. Rhaid rhoi copi o'r rhybudd ysgrifenedig hefyd i'r Cyngor.

Gellir cysylltu â'r Archwilydd Cyffredinol drwy: Archwiliadau Cyngorau Cymuned, Archwilio Cymru, 24 Heol y Gadeirlan Caerdydd CF11 9LJ.

4. Cynhelir yr archwiliad o dan ddarpariaethau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Tudalen 8 o 10 - Archwilio Cyfrifon 2021 - Please contact us in Welsh or English / Cysylltwch â ni yn Gymraeg neu yn Saesneg.